YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

Rhif 10. HYDREF, 1925. Pris 3c.

.. CYNHWYSIAD. ..

HYDREF.
ODDIAR Y TWR.
TREWYLAN.
ARDALOEDD Y MWYAR DUON.
ADRAN YR YSGOL SUL.
UNDODIAETH:
YN NACAOL AC YN GADARNHAOL.
CANNWYLL Y CYMRY.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Geiriadur Beiblaidd

Y GWAITH PWYSICAF AR Y BEIBL
A GYHOEDDWYD YN GYMRAEG. . .

Pedair mil o Erthyglau gan 180 o'n gwyr blaenaf.

— Pris 1/6 y Rhifyn. —

I'W GAEL O—
Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul.

.. RICHARD PRICE ..

Philosopher and Apostle of Liberty

Gan ROLAND THOMAS, M.A.,
Cyfarwyddwr yr Ysgol Wyliau Gymraeg.

Gwasg Prifysgol Rhydychain, 5/-.

Drwy'r post 5/5.

Anfoner i Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR YMOFYNYDD.

CYLCHGRAWN MISOL Y . . . . . .
GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD. HYDREF, 1925. CYF. XXV. RHIF 10.

YR HYDREF.

(Buddugol yn Eisteddfod Gadeiriol Towyn, Meirionydd, Mehefin, 1912)

MAE ffarwel yr haf ar odreon y mynydd,
A chroesaw yr hydref hyd lennyrch y fro,
A'i gyfoeth yn donnau o aur hyd y meysydd
Yn sisial ei hiraeth am ydlan a tho.

A chlywaf orohian y plant ar y ffriddoedd,
A'r mwyar a'r llus ar y llwybrau'n llawn,
A chyffro'r awelon yng nghlychau'r mynyddoedd
Yn son am addfedrwydd ar faenol a mawn.

Mae cân y medelwyr dihamdden yn deffro
Ysbrydiaeth ac eco pellterau'r glyn,
A'r cryman cyfarwydd yn sio, yn sio
Wrth dorri ei lwybyr drwy'r gwenith gwyn.

Wrth rwymo'r ysgubau mor hawdd i dyddynwr,
Dan fendith yr hirddydd caredig ei ddawn,
Yw herio y ddrycin a throi yn addolwr
Dan gysgod addewid ysgubor lawn.

Mae melyn yr haul ar y manddail yn haenau,—
Yn gwisgo'r gwinllanoedd o ffin i ffin,
Ond oeri wna'r awel wrth groesi y bannau,
A sibrwd am aeaf a llwyni crin.

Yn disgwyl am danaf o firi'r ydlannau,
Mewn bwthyn penisel wrth odre'r allt,
Ceir rhywun a lleithder yr hwyr ar ei gruddiau,
A barrug yr hydref yn nhresi'i gwallt.

EIRWYN.

ODDIAR Y TWR.

YN sicr, hen fyd hynod iawn yw hwn y trigwn ynddo am ennyd fer. Dwg chwyrnell amser gydag ef (yn ei gol) gyfnewidiadau rhyfedd ac annisgwyliadwy. Perwyd imi ddechreu'm llith fel hyn gan sylw a wnaed gan un o'r siaradwyr yng Nghyfarfodydd diweddar Undeb y Bedyddwyr, i'r perwyl—bod torf o fobl wedi gorymdeithio drwy heolydd tref neilltuol yn Neheu Cymru, ac y cludid baner o flaen yr orymdaith a'r ysgrifen a ganlyn arni—"I lawr â'r Nasaread."

* * *

O ddarllen y sylw, ehedodd fy meddwl yn ol dros gyfnod o hanner can mlynedd, a gwelwn, drwy lygad fy nychymyg, dorf arall, yn yr un dref, a waeddai—"I lawr â'r Undodwr," neu, "I lawr â'r Sosin"; a'r Undodwr (neu'r Sosin) oedd y diweddar Barchedig John Davies. Ac arweinwyr y dorf honno oeddynt ddilynwyr proffesedig "y Nasaread." Y mae cryn nifer (os nad yr oll) o honynt, erbyn hyn, wedi croesi i "drigfannau'r gwawl"; a thebig iawn eu bod wedi hen weld eu camsyniad. Pan groesodd Mr. Davies i'r tu hwnt i'r llen, pa fath ar roesaw, tybed, a gafodd gan y rhai a fu ymron bod yn achos angeu iddo ym mlwyddyn fythgofiadwy '75 yn nhref Llanelli.

* * *

Nad yw'r disgrifiad uchod o'r driniaeth a weinyddwyd i Mr. Davies yn ormodiaith a wneir yn amlwg gan y dyfyniad isod o adroddiad o'r helynt: "Cafodd Mr. Davies ei ddirmygu, ei wthio, ei watwar, ac ymhob dull ei sarhau" gan y terfysgwyr; "pan yn yr y tafell hon (tu ol i'r llwyfan) cafodd y darlithydd ei dynnu oddiamgylch, a'i wthio, am oddeutu pymtheg munud, nes o'r braidd y dihangodd heb gael ei fogi." Dywed y *Christian World*, yn ei gyfeiriad at y terfysg, "Cymerodd hyn le mewn gwirionedd yng Nghymru dim ond wythnos yn ol. Mae'n darllen fel tudalen o adroddiad cenhadol o ganolbarth Affrig, neu o Ynysoedd Mor y De, neu bennod o Actau'r Apostolion."

* * *

Dalen ddu iawn yng Nghroniclau tref Llanelli yw'r ddalen a ddyry inni hanes y terfysg hwnnw, a dynnodd sylw'r holl wlad, a rhai o'r gwledydd. Ie, dalen ddu iawn ydyw. A da iawn a fyddai pe nas bodolai. Amlwg iawn ydyw inni heddyw bod sêl yr erlidwyr yn gryfach na'u teimlad o degwch a goddefgarwch. Yr oedd gan Mr. Davies berffaith hawl i draethu ei genadwri yng nghlyw pwy bynnag

a ddelai i wrando arno, ymha le bynnag y cai rai i wrando arno, ; ac yr oedd gan ei wrthwynebwyr berffaith hawl i ladd effaith ei genadwri ymhob modd teg a Cristionogol ; eithr ni feddent hawl i'w erlid a pheryglu ei fywyd fel y gwnaethpwyd. Nid yw'r ysbryd erlid yn rhan o Gristionogaeth Iesu.

* * *

Erbyn hyn y mae'r rhod wedi troi—wedi hanner troi, efallai, a siarad yn gywir. Mr. Davies a achwynai bryd hynny ; er nas clywais erioed yn achwyn ; ganddo ef yr oedd achos i achwyn. Heddyw, olynwyr erlidwyr 1875, yn hytrach, sydd yn achwyn ; ac achwynant oblegid peth mwy peryglus o lawer na chenadwri Mr. Davies. Yn sicr, " Mae'r byd yn rhyfedd yn ei droion."

* * *

Y mae, bellach, hanner canrif ar pan fu Mr. Davies yn Llanelli. Ydyw ysbryd y dyddiau a fu yn fyw yno o hyd. Dywedir wrthyf—ai'n gywir ynte anghywir—nad peth amhosibl ydyw i Undodwr proffesedig i gael mynediad helaeth i mewn i gyflawn aelodaeth yn amryw o addoldai ymneilltuol y dref heddyw. Os felly, y mae'r byd yn symud—mewn rhagor nag un ystyr.

* * *

Ond—i ddychwelyd at y sylw y cyfeiriwyd ato eisioes : ai cywir, ynte anghywir ? ni welais un cyfeiriad at y mater ar ol hynny. Os bu'r fath orymdaith yn nhref Llanelli, neu yn unrhyw dref arall, gyda baner a ddug yr argraff " I lawr â'r Nasaread " arni, diddorol iawn fai tipyn o oleuni pellach ar y cwestiwn—pam y gosododd y gorymdeithwyr y fath argraff ar eu baner ? Yr awgrymiad tu cefn i'r cyhuddiad, yn debygol, oedd—mai gweithwyr (Bolshefiaid efallai) a wnai'r orymdaith i fyny. Pam y bloeddient—"I lawr â'r Nasaread?" Y mae'r peth imi'n ddirgelwch. Oblegid cyfaill y rhai a sethrid tan draed y byd yr arferid ystyried " y Nasaread " ; cyweirnod ei genadwri yw—" i breget u i'r tlodion yr anfonodd fi, i iachau y drylliedig o galon, i bregethu gollyngdod i'r caethion, a chaffaeliad golwg i'r deillion, i ollwng y rhai ysig mewn rhydd-deb."

* * *

Ai nid posibl y ceir ateb i'r ymholiad uchod yn y rhith-darluniadau o Iesu a ddelir mor aml o flaen y byd—yr Iesu annaturiol y credir ynddo'n gyffredin, na ddwg un tebygrwydd i Iesu syml y Testament Newydd ? Os felly, da ; ond na waedded neb " i lawr â'r Nasaread " fel y'i disgrifir yn y Testament Newydd—cyfaill y

dyn sydd ar lawr. Ie, dyna beth oedd "y Nasaread"—cyfaill y dyn sydd ar lawr.

* * *

Bu adeg, heb fod ymhell iawn yn ol, pan dybid fod crefydd a gwyddor yn elyniaethus i'w gilydd—bod gwyddor yn gweithio tan sylfeini'r olwg grefyddol ar bethau. Aml iawn, yn y dyddiau a fu, y clywid bloeddio o lawenydd o fedawl bod crefydd ar gael ei throi ar y neilltu gan wyddor, diwinyddion ar gael eu hafreidioli gan wyddonwyr. Brwd a garw a fu'r dadleu a berwyd gan yr elyniaeth dybiedig. Blinid pleidwyr crefydd yn bennaf gan yr ofn mai arwain i annuwiaeth ac anghrefydd a wnai gwyddor; ac ymddanghosai gwyddonwyr fel pe caent bleser mawr o daflu'r delwau i lawr.

* * *

Sefyllfa hollol ddi-alw-am-dani oedd hon; ac yr oedd peth bai ar bobun o'r pleidiau—diwinyddion a gwyddonwyr. Erbyn hyn dechreu pobun o'r ddwyblaid weld eu camsynied; oblegid camsynied dybryd ydoedd. Gwel y diwinydd ei gamsynied; oblegid daw fwy-fwy amlwg iddo na raid ofni, belled ag y mae a fynno gwyddor a chrefydd. Gwel y gwyddonwr, hefyd, ei gamsynied; oblegid daw fwy-fwy amlwg iddo yntau na raid i wyddor—yn wir, na ddylai gwyddor—ymyrru a chrefydd. Y mae'i bobun o honynt ei faes ei hun—meysydd hollol annibynol y naill ar y llall, mewn un ystyr; meysydd, mewn ystyr arall, a ddylai fod yn law-forwynion (os addas y gair) i'w gilydd.

* * *

Ni ellir cael gwell prawf o'r cyfnewidiad y cyfeiriwyd ato na'r un a geir yn yr anerchiad a draddodwyd gan y Dr. (neu, Syr) Oliver Lodge yn Southampton adeg cyngres gwyddonwyr yr Ymherodraeth Brydeinig ychydig Suliau yn ol. Saif y Dr. (gwell gennyf y disgrifiad hwn o hono na Syr) ymhlith y blaenaf o wyddonwyr y dydd. Adnabyddus ydyw, nid yn unig ar gyfrif ei safle fel prif-Athro Prif Ysgol Birmingham ond hefyd ar gyfrif ei wybodaeth wyddonol eang a'i gesyd yn y rhenc flaenaf ym myd gwyddor. Y mae ei gydymdeimlad â chrefydd yn ei hamrywiol agweddau yn gyffredinol wybyddus. Y mae, hefyd, yn un o nifer o ddynion dysgedig a gyfyd y mudiad ysbrydegol i dir a hawlia sylw, os nad cydsyniad.

* * *

Dyma sylwedd yr anerchiad y cyfeiriwyd ato (dim ond y sylwedd, sylwer, ac nid cyfieithiad): "Nid llyfr gwyddor yw Genesis, eithr llyfr a ddyry inni ddisgrifiad barddonol o ddechreu pethau. Nid

yw gwybodaeth parthed dechreu pethau yn bosibl i ddyn. Ond y mae gwybodaeth (dyna ystyr y gair gwyddor) yn ehangu ein syniad am fawredd y bydysawd. Gwyddom mai'r un deddfau sy'n llywodraethu'r bydysawd ymhob cwr o hono drwy'r eangderau diderfyn. Yn ychwanegol at fyd mater, y mae byd yr ysbryd. Nid â dim allan o fodolaeth. I hyn nid yw dyn yn eithriad. Fe barha'r ysbryd dynol. Nid oes derfyn i fod i fodolaeth dyn." Dyna ddigon i ddangos rhediad yr anerchiad, a safle'r Doethawr adnabyddus parthed y pwnc o ddyn a'i dynged.

* * *

O hyn allan, cyd-weithwyr yn yr un winllan fawr a fydd crefydd a gwyddor—gwyddor yn arwain dyn tua gwybodaeth berffeithiach; crefydd yn ei arwain tua'r dyn perffaith yng Nghrist; a'r ddau, nid yn elynion a edrych yn gilwgus y naill ar y llall, ond yn gydweithwyr cyfeillgar. Gresyn ydyw i un math ar elyniaeth ddod i fodolaeth rhyngddynt. Nid gelyniaeth, eithr cydweithrediad, a ddylai fod arwyddair y ddau.

SYLWEDYDD.

TREWYLAN.

Nid awgryma'r testun ddim ond odid, eto medr y craff rywsut dynnu at lan y mor er chwilio am "*Drewylan*" oherwydd yno y mae'r wylan yn caru aros. Nid oes dim hud trosto fel tros Ddyfed gynt—ac eto gallesid gwau rhamant crefydd am dano gydag ychydig ymdrech, oherwydd yma y pregethwyd gydag amcan pendant am y tro cyntaf ond odid gan Weinidog Undodaidd yn Aberaeron. Wrth edrych dros restr o'r tai drwyddedwyd i bregethu ynddynt yn 1672 caf fod 13 ohonynt yng Nghymru yn dai benywod, a nodir ty ym Mhencader fel ty "y widw Jenkins," a thy yn Aberteifi fel ty y "widw Gwyn," a hwyrach y bydd haneswyr y dyfodol yn chwilio am Drewylan, ty Mrs. (Capt.) Jones gynt o Gyfeile, Llandyssul. Pwy wyr? Digon o hanes fydd cofio *Trewylan* a hwyr Sul, Medi 6, 1925, a chwmni o addolwyr syml yn ceisio addoli Duw gyda'i gilydd. Nid wyf i broffwyd na mab i broffwyd ond nid wyf yn sicr na welais yr hwyr Sul hwn ddarn o gynfas a llaw anweledig yn paentio arno a minnau yn cael cipolwg ar yr hyn a fedrid wneuthur pe buasai mantell Elias, ie mantell yr hen gedyrn gynt yn syrthio ar Eliseus—ar ein hysgwyddau ni. Nid oedd yma na pharatoi na chynllunio. Eisteddwn ar hwyr Sul olaf yn Awst ar lan mor Iwerydd gan wrando'r don yn adrodd adnodau'r mor. Crwydrai'r don—yr oedd atal dywedyd arni ambell dro—a chrwydrwn innau. Ehedai fy meddwl gyda'r wylan i gyfeiriad y Gorllewin heb ddim i'w alw yn ol ond iaith cariad y fechan yn fy ymyl a minnau yn cofio awgrym y bardd :—

"Gwelais ryw wawr o'r hyn ydoedd
Mor wir yn fy more iach ;—
Os mud ydyw'r nef a'r bydoedd,
Mae Duw ymhob plentyn bach!"

Wrth roddi ffrwyn felly i'm dychymyg, meddyliwn a mi fy hun ei bod yn cymryd amser hir i ddylanwad Ciliau dreiddio hyd at Aberaeron. Nid oedd gennyf reswm tros yr arafwch a chyn y medrais foddloni fy hunan wele *ddwy* yn dyfod—yn cyfarch gwell—a chyn i mi gael amser i *switcho'r* meddwl yn ei ol wele hwythau yn dilyn megis yr un llwybr, a minnau'n addo pregethu yn Nhrewylan yr hwyr Sul dilynol. *Telepathi*, medd rhywun. Caiff arall esbonio. Digon i mi yw nodi'r ffaith a marco'r grwn er i arall ei aredig.

. . . . .

Cwynir yn aml fy mod i yn canmol gormod ar yr hen deidiau a mynnir fod rhyw frycheuyn yn fy analluogi i gadw'r *perspective*, chwedl y Sais. Nid fy amcan i yw beio neb yn fwy na'i gilydd ac yr wyf yn y cwch fy hunan, ond cyn barnu y naill ffordd na'r llall y mae'n naturiol i ni fwrw golwg er gweled. Dewch yn ol ryw bedwar ugain mlynedd neu ragor a cheir fod y Parch. John Jeremy yn dod o Gaerfyrddin bob cam i Gaeronen am y ffortiwn fach o hanner coron. Nid eithriad mo hyn yma. Diddorol ydyw atgofion yr Hybarch R. C. Jones am ei deithiau pregethu o Gaerfyrddin i St. Clears a Rhydypark am ond odid yr un arian. Pwy nad yw wedi clywed am y diweddar Barchedig o Danycoed yn cerdded i Gwmwrdu neu'r Onenfawr a mannau pellennig.

Wrth gofio am y grwgnach a chofio hefyd fod yna rybudd o gynnyg ar raglen Cyrddau Chwarter y Gymdeithas yn Aberdar i folltio'r drws am byth yng Nghwmwrdu, Rhydypark a mannau ereill, dechreuais feddwl o ddifrif a ddylesid gwneuthur a gais un o'r brodyr gennym ar unrhyw gyfrif, a thybiwn glywed ateb go bendant y rhai fu'n llafurio yma gynt yn fy nghalonogi innau. Dychmygwn yr enwad fel malwoden yn tynnu'i chyrnau i mewn neu fyddin yn rhoddi'r *outposts* i fyny, yn byrhau'r *lines* oherwydd ei bod yn rhy wan i'w dal. Tybed fod hyn yn wir am danom ?

Bwriais drem dros hanes rhag imi wneuthur cam ag un gwr yn ei fater. Cofiais am Flaengwrach, yn mynd yn ol i 1704, a thrist oedd darllain am ei gau yn 1878, a'i rento i'r Annibynwyr yn 1892 am 14 o flynyddoedd. Dyna'r *Onenfawr* gerllaw Llandilo wedi'i agor yn 1839 gyda John Griffiths yn weinidog ond ymhen rhyw ddeugain mlynedd nid oes yno neb ond *supplies* ac er's blynyddoedd bellach y mae'n adfeilion. Yr un yw'r hanes ynglyn a Chwmwrdu. Y mae'n cymryd ugain mlynedd i apwyntio ymddiriedolwyr a hynny gan *rai sydd a llwyddiant yr enwad yn agos at eu calonau.* Dyna ddigon am y tro. Ceir cyfle maes o law i adrodd yr *holl hanes* am Gwmwrdu. Nid yw'r bennod llawn mor ddu cyn belled ag y mae Panteg yn y cwestiwn. Daeth i'n meddiant yn 1799 yn ystod y ddadl rhwng Arminiaeth a Chalfiniaeth ond nid yw'r gymdeithas na neb wedi gwneuthur rhyw lawer drosto na thros Penrhiw ychwaith. Y mae'r Gymdeithas yn Llundain yn fwy ffafriol i Benrhiw na'n cymdeithas ni. Go debig ydyw'r hanes am Rydypark (1877) a St. Clears 1799. Y mae Mydroilyn a Thyddyndu wedi trengu. Ond croesi i Forganwg nid yw'r hanes nemor os dim yn well. Ble mae Clydach Vale, Cwmbach, Dowlais, Castellnedd a hwyrach ddau neu dri achos arall ? Y mae amgylchiadau anorthrech ynghyd a difaterwch lethol a diffyg ymdrech wedi ysgrifennu Ichabod uwch eu pennau. Y mae hanes yr achosion hyn yn peri i ni feddwl o ddifrif ac ymysgwyd, os nad ydym ninnau am weld darn llaw yn ysgrifennu ar y mur, *Mene*, *Tecel*, *Upharsin*.

. . . . .

Fel yr eir i ddwr y mor, neu y ceisir *tonic* gan y meddyg y trois innau o'r bennod drist i ddarllain yr erthyglau a ymddengys yn y Daily Express y dyddiau hyn gan rai o brif lenorion Lloegr ar yr hyn y maent yn gredu. Ysguba Arnold Bennett "Dduwdod Crist, yr enedigaeth wyrthiol, y cenhedliad goruwchnaturiol, Nefoedd, Uffern, anfarwoldeb yr enaid ac Ysbrydoliaeth y Beibl o'r

neilldu fel pethau sy'n cael eu gwadu mor gyffredin fel nad oes angen dadleu yn eu cylch." Y mae o yn medru profi bod Duw drwy'r ddadl oddiwrth fwriad a thrwy'r gydwybod, ac eddyf fod Iesu wedi deall cyfrinach hapusrwydd a dedwyddyd yn well na neb. Pwysleisia garedigrwydd, trugaredd, gostyngeiddrwydd, maddeugarwch a rhinweddau felly a myn mae cwrteithio y rhai hyn yw prif amcan crefydd oherwydd mai hwynthwy sy'n puro'r enaid, yn dyfrhau a bwydo gwreiddiau dyfnaf bodolaeth gan wneuthur hapusrwydd yn bosibl. Myn Hugh Walpole ar y llaw arall fod tair stage ar lwybr crefydd. Y gyntaf yw stage y plentyn yn derbyn y *dogmas* a greodd ei dad. Yr ail yw'r dyn wedi prifio yn gwrthod pob peth ac y mae llu'n ein byd yn tybio eu bod hwy yn rhy fawr i grefydd ond ei bod yn addas i blant a phobl ar fin y bedd. Y drydedd stage yw'r dyn sydd yn curo'i gredo allan o brofiadau'i galon ar eingon ei enaid ei hunan.

O ddarllain yr erthyglau hyn gydag awch, teimlaf yn flin a thrist o ysbryd o feddwl am gau capelau ar yr adeg pan mae mwyaf o'u heisiau, pan mae meddylwyr goreu'r genedl a phapur newydd yn dangos cyfeiriad y gwynt, a phe gwrandewsid arnaf i, dywedwn nad yw iechydwriaeth yn gorwedd yng nghyfeiriad hanes trist Cwmwrdu, Rhydypark a mannau ereill, ond os ydym am fyw—os ydym yn deilwng o fyw rhaid gwthio 'mlaen, rhaid cyhoeddi'n cenhadwri ledled y byd. Nid edrych yn ol fel yn Onenfawr a St.Clears ond edrych ymlaen heibio Trewylan.

T. O. W.

ARDALOEDD Y MWYAR DUON.

I

Y MAE peth sylw wedi ei roddi yn ddiweddar i delynegion Robert Herrick—un o feirdd y cyfnod a elwir yn "oes Elizabeth"—pan oedd "Bess yn teyrnasu" ym myd llenyddiaeth, yn ogystal a phethau pwysig eraill. Ac y mae caniadau byrion, blasus, Robert Herrick wedi goroesi'r blynyddoedd maith, ac yn cadw eu mireinder a'u cyfaredd i'r sawl a wyr eu blas. Y mae awen y bardd hwnnw wedi cael ei chyffelybu i'r mefus yn yr ardd. Bardd y mefus oedd ef. Trochodd ei serchganigau yn y mefus a'r hufen.

II.

Carennydd y mefus ydyw'r mwyar duon. Y mae'r naill yn cynrychioli diwylliant, a'r llall yn blant y gwylltineb. Tyf y mefus yn y gerddi, a'r mwyar duon ar y gwrychoedd a'r perthi, heb neb ond Awdur Bywyd yn gofalu am danynt.

Ond i'r sawl a fagwyd yn y wlad, mae rhyw swyn diddarfod yn enw'r "mwyar duon." Erys adgofion o Eden bore oes yn glymedig wrthynt hwy, fel y dywed Cynddelw yn ei gywydd i "Ferwyn."—

> Ac i Ferwyn wyn ei war,
> Lluosi mae llus a mwyar.

Yn yr wythnosau hyn ceir pobl o'r wlad yn cludo'r mwyar duon i'r dref, ac yn eu gwerthi o ddrws i ddrws. Y mae hynny'n burion; ond un peth ydyw edrych ar fwyar duon mewn basged, a pheth arall, tra gwahanol, ydyw edrych arnynt yn eu cynefin. Dyna'r hiraeth a ddaeth arnaf rhyw ddydd, a chymerais fantais ar nawn Sadwrn i fynd ar ymwelaid a broydd dewisol y ffrwythau gloew a phersawrus—"ardaloedd y mwyar duon."

III.

Nid ydynt yn bell mewn un ystyr,

Raid dim mynd y "tu arall i'r dwr" i'w gweled. Ond y maent i raddau, yn neilldued ig. Dyna ddewis fannau'r mwyar duon. Plant y ffridd-oedd a'r encilion ydynt hwy. Ac er mwyn eu gweled yn eu gogoniant cynhenid, gweddus ydyw gadael y bri-ffordd, a'r rheilffordd, a chrwydro drwy lwybrau culion, ceimon, a ffyrdd plwy, wedi eu bamgylchu a chloddiau tewion, lle y tyf blodau gwylltion, a ffrwythau porffor eu lliw.

IV.

Yr oedd y nawn yn weddnewidiol. Cawod un funud, a heulwen y funud nesaf. Anian yn gwenu drwy ei dagrau—dagrau melus iawn. Croeswn yr afon dros bont bren, a deuwn at ffermdai tawel, henafol. Buont yn balasau mewn rhyw oes gynar, ac erys gweddillion y mawredd a fu ar eu hymylon. Tyf "hen dderw mawr y llwyn" ar y llanerchau hyn, ac y mae'r buarthau llydain, glaswelltog, yn awgrymu mai nid pobl yn byw yn y "mesurau caethion" oedd y cynbreswylwyr. Y mae'r cynhauaf yd wedi eu gasglu i ddiddosrwydd : teisi mawrion, braf, ac yn proffwydo amseroedd gwell. Yr oedd awr noswyl wedi dod, a'r gwaith wedi ei orffen am wythnos arall—nos Sadwrn y gweithiwr. Nid oedd meistr na gwas yn y golwg—dim ond mintau o wyddau yn cynal "pwyllgor" gerllaw y pwll dwr. Tebyg mai'r ceiliogwydd oedd y llywydd, ac yr oedd y drafodiaeth yn dra brwdfrydig. Nis gwyddwn beth oedd y pwnc dan sylw : efallai mai "trefn a chynaliaeth y ——." Ond y mae'n amlwg na chyfrifid fi yn "aelod o'r pwyllgor" hwnnw, canys yr oedd y llywydd yn dangos ei anghymeradwyaeth drwy "chwythu bygythion" nas gellid eu camddeall. Aethum o'r tu arall heibio i bwyllgor y gwyddau, gan gofio am ddisgrifiad Dr. Lewis Edwards o'r Bala, yn un o'i "Draethodau",—rhyw geiliogwydd uchelgeisiol yn tybied y gallai efe ehedeg i entrych awyr. Esgynnodd i ben y clawdd, lledodd ei adenydd, yng nghanol banllefau o gymeradwyaeth ei dylwyth. Ond, druan ohono, disgynnodd y swrth ar y domen ei hun a phrofodd yn eglur mai "mab yr wydd" oedd efe, ac nid mab y wawr.

V.

Yn y man, gwelwn yrr o ddefaid yn dynesu, a'r cwn, fel swyddogion y fyddin yn cerdded ar y blaen, a'r "bugail" yntau yn cerdded or tu ol i'r fintai wlanog. Ac wrth basio, yr oeddwn yn sylwi fod "carchar," neu lyfethair, wedi ei osod ar goesau yr holl ddiadell. Nis gallent redeg na dringo dros y clawdd.

"Beth yw ystyr hyn?" ebwn wrth y gwr tawelfryd oedd yn eu harwain i'r buarth.

"Newydd ddwad i lawr o'r mynydd y mae y rhain," ebai yntau, "ac y mae yn rhaid gwneyd hyn am dipyn er mwyn eu dofi a'u cadw rhag mynd ar grwydr."

"Felly'n siwr. Yr wyf yn deall yn awr. Rhaid arfer y "carchar defaid" er mwyn eu cadw dan y ddeddf."

Ond yr oedd rhyw ias o gydymdeimlad yn ennyn ynnof wrth edrych anynt yn ceisio "hobian" ymlaen, a'r llinyn cryf a garw yn atal eu camrau. Mor wahanol oeddynt ar y mynydd! Yno yr oedd rhyddid yn teyrnasu a phob gewyn yn rhydd. Gallent ddringo llethr y graig i chwilio am y "blewyn glas," a neidio dros y ffrwd i chwilio am borfa. Yno, yr oeddynt yn "llawen uwchben y byd," a gellid dweyd am bob un :—

Daliai thraed, di-lithr oedd
Yn yfed gwynt y nefoedd.

O ryddid i garchar—"carchar defaid." Mor debyg ydyw hanes dyn a defaid! Megir ambell athrylith ar lethrau'r mynydd Yf awelon yr uchel fannau, a'i gamrau yn rhydd ac annibynol, yn "ysgafn ei droed fel yr ewig." Ond daw rhyw ddylanwad arall heibio. Gosodir ef mewn hualau; cerdda dan ormes rheolau a barnedigaethau, ac ymedy y naturioldeb a'r gyfrin ddawn a roddwyd gan Greawdur yr awenau yn ei enaid. Daw megis aelod cyffredin mewn gyrr o ddefaid : pob un yn cerdded yr un fath, a'r "carchar" am ei goesau!

Gwell ydyw rhyddid y mynydd, na gefynnau'r gwastadedd. Arhoswch

ar y mynydd hyd y gellwch. Dichon fod y borfa yn frasach ar y gwastadedd; ond, yno, hefyd y mae'r llyfetheiriau, a'r cwn defaid.

VI.

Nid wyf yn awgrymu dim sydd yn angharedig am y "cwn defaid." Fel rheol, y maent yn waraidd a hynaws gyda dieithriaid. Y mae cwn sydd yn cael eu cadw yn foethus i "gyfarth," a dim arall. Dyna eu neges mewn bywyd, ac y maent yn derbyn eu gwobr. Daethum o fewn ergyd carreg i un o'r dosbarth hwnnw yn ystod y daith. Yr oedd ei wedd yn fygythiol, a'i swn yn arswydus. Yn ffodus yr oedd yntau wrth gadwyn, ond ei bod yn gadwyn lled hir. Beth pe buasai yn digwydd torri? Yr oeddwn yn meddwl am y dyn hwnnw a ddaeth yn lled agos at un o'r tylwyth trystfawr hyn.

"Rhaid i chwi ddim ofni," ebai perchennog y ci, "nid y ci sydd yn cyfarth sydd yn arfer brathu. Chwi wyddoch y ddiareb?"

"Ydwyf," oedd yr ateb. "Yr wyf yn gwybod am y ddiareb, fel y dywedwch; ond nid wyf yn gwybod dim am y ci."

Ethr ni ddigwyddodd dim niwaid. Cafodd y ci yr wyf yn son am dano orchymyn pendant i fynd i'w gwt. Gwyn fyd na ellid rhoddi gorchymyn cyffelyb i bob ci sydd yn cyfarth ei well mewn byd ac eglwys, a'r wlad a gaffai lonydd.

VII.

Ond yr ydym yn cefnu ar y ffermdai, y defaid, a'r cwn, ac yn wynebu'r cae gleision, prydferth. Dyma ni o'r diwedd wedi dod i wynfa'r adar—ardaloedd y mwyar duon. Y mae'r fath gyflawnder ohonynt fel y mae'r gwrychoedd eu hunain yn ymddangos yn dduon oddidraw.

Dyma olud gwell, mewn gwirioneddd. Onid oes yma rhywbeth tebyg i wastraff? Nis gall holl blant y fro, a holl adar y nefoedd, ddim ond degymmu ychydig ar y llawnder. Na, nid gwastraff ydyw, ond haelfrydedd dwyfol yr Hwn sydd yn agoryd ei law, ac yn rhoddi yn haelionus ac heb ddannod.

VIII.

"Diolch am gael gweled rhywbeth y mae digon o honno fo," ebai'r lodes fach a gymerwyd am ddiwrnod o un o *slums* Llundain i weled y mor. Teimlwn yn debyg tra yn syllu ar baradwys y mwyar duon. Bu agos i mi ddweyd mai un rheswm ydoedd—nad oedd yno yr un *food controller*. Buasai hynny yn gamsyniad enbyd. Yno y mae'r *food controller* gwirioneddol. Nid cyfrif a phwyso ydyw ei arfer Ef. Gall roddi y mynyddoedd mewn pwysau, a'r bryniau mewn eloriannau Ond nid ydyw yn gwneyd—felly gyda phethau bach, syml, fel y mwyar duon. Dynion sydd yn pwyso pethau bach—pwyso pethau mawr y mae Ef. Y mae yn rhoddi rhyddid i'r mwyar duon i lanw'r gwrychoedd, fel y bydd pobl dda yn gwneyd gyda masnach—rhoi rhywbeth dros ben. "Mi gewch hwn yn fendin."

Felly y gwna Ef—rhoddi y cynhauaf ar y maes, a'r mwyar duon yn "fendin" ar y gwrychoedd.—

Can's da yw'r Arglwydd, Awdur hedd,
Da ei drugaredd a di-lyth.

LLWYDDIANT.— Ar ddiwedd tymhor byr o efrydiaeth mewn *Dairy* a *Domestic Science* yng Ngholeg Prif-Ysgol Cymru pasiodd Miss Nancy Thomas, merch hynaf Mr. a Mrs. Thomas, Pantmeddyg, Llanwenog, a Miss Maggie Evans, Dolau-canol, Llanybyther, arholiad, a daeth Miss Thomas allan yn flaenaf yn Sir Aberteifi, a'r ail yn siroedd Aberteifi; Caerfyrddin a Penfro, a Miss Evans yr ail yn Sir Aberteifi.——Pasiodd David Lloyd Lewis, trydydd mab y diweddar Mr. J. T. Lewis, Ysgolfeistr, Pencarreg, a Mrs. Lewis, Penybont, Llanybyther arholiad yr *Oxford Junior*.

ADRAN YR YSGOL SUL.

MAES LLAFUR 1925—1926.

Safon I. I blant dan 9 oed.

(*a*) Darllen a sillebu geiriau syml o unrhyw lyfr a ddefnyddir yn yr Ysgol Sul.
(*b*) Dysgu ar y cof Mathew v. 3-12. (Y Gwynfydau).
(*c*) Dysgu ar y cof "Galwad i'r Ysgol Sul." Rhif 78 yn yr Ail Gasgliad. (Gadawer allan y Cydgan).

Safon II. I blant dan 12 oed.

Ffeithiau syml hanes Paul yn ystod ei ail daith genhadol :—Dechreu yn Actau XV.

Safon III. I blant dan 15 oed.

Hanes Paul yn ystod ei ail daith genhadol :—Dechreu Actau XV.

Safon IV. 15 oed i fyny.

(*a*) Hanes Paul yn ystod yr ail a'r drydedd o'i deithiau cenhadol : Dechreu Actau XV.
(*b*) Pump pennod o'r "Hanner Can Pwynt," dechreu gyda'r unfed-ar-ddeg.

Penderfyniadau ac Awgrymiadau :—

1. Penodwyd y Parch. J. Islan Jones, M.A., Hindley i fod yn Arholwr cyffredinol.
2. Dydd yr Arholiad :—Sadwrn olaf yn Mawrth, 1926.
3. Safon I. gael ei holi ar lafar (*oral*), hefyd gall unrhyw blentyn fyddo yn dewis eistedd yr arholiad yn llafaredig (*oral*) yn yr ail a'r drydedd safon, ond bod yn rhaid i'r arholiad am y medal yn y tair i fod yn ysgrifenedig.
4. Awgrymwyd yr Ail ran o lyfr yr Actau fel maes llafur i'r Ysgolion Sul am 1925—26, ac iddynt ddechreu ar y maes y Sul cyntaf o Hydref. Hefyd y doethineb o ddewis penodau o'r Maes Llafur ar gyfer y Cymanfaoedd Ysgolion (1926).

Nodiad—Dalier sylw ar ad-drefniad y gwahanol safonau. Credir, o wneud hyn ei fod yn gwneud gwell chwareteg a'r plant.

D. Conwil Evans, *Ysgrifennydd.*

HENAINT.

(*Buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli*).

Dilynai yntau gyda'r dyrfa fawr
I frwydro fel yr ifanc am ei sedd ;
Dilynai'n brudd, a'i wyneb tua'r llawr,
Ac olion y blynyddoedd yn ei wedd ;
Pan gododd cwrr y llen, hir ddad-
wrdd fu,
A chrynai'r neuadd enfawr hyd ei
sail ;
Ar wyneb eilun newydd syllai'r llu,
Ac wedyn wylo a chwerthin bob yn ail.
Disgynnodd cwrr y llen, a'i guddio
dro,—
Y glew a chryfder miloedd ar ei fin ;
Ac at y drws troes gŵr daniasai fro,
A'i wefus mwyach megis deilen grin.
Allan yr aeth, efo a'i enaid llwm,
A'r lleuad yn ei weld yn wylo'n drwm.

D. E. James.

UNDODIAETH: YN NACAOL AC YN GADARNHAOL.

BETH gredir gan yr Undodiaid?

Mae anhawster i roddi ateb union-gyrchol i'r gofyniad, yn gymaint nad yw Undodiaid, fel enwadau ereill, yn derbyn credo, neu gyffes ffydd awdurdodol. Os bydd ar rywun chwant ymuno a hwy, tybir fod hynny oherwydd fod eu dull o addoli yn dderbyniol ganddo, a'i fod yn cyduno mwy neu lai a'r hyn a glyw yn gyffredin o'r pwlpudau. Pan yn ymaelodi nid ydys yn gofyn dim iddo am yr hyn mae'n gredu neu anghredu. Mae yn dod yn aelod cynnulleidfa trwy ei ymlyniad ei hunan, ac nid trwy benderfyniad ereill yng nghylch ei ffydd neu ei addasrwydd.

Felly mae'n digwydd fod rhai Undodiaid yn llawer nes i'r gred boblogaidd nag eraill, ond nid oes gan neb hawl i feio arall am gredu gormod neu rhy fach. Eto mae rhai pethau ag y mae cytundeb cyffredin, os nid hollol arnynt, a gallwn ddywedyd—heb rwymo neb—nad yw

UNDODIAID YN CREDU

Yn y *Drindod*, neu fod tri pherson yn yr un Duw;

Yn yr *Ymgnawdoliad*, neu fod Iesu Grist yn Dduw a dyn yn un person;

Mewn *Ysbrydoliaeth Lythrennol*, neu fod y Beibl yn anffaeledig Air Duw;

Yn yr iawn neu'r *Haeddiant*, fel yn golygu fod dyn yn greadur syrthiedig, wedi ei eni mewn pechod, ac mewn angen cyfryngwr i'w gymodi a Duw;

Mewn *Cyfiawnhad trwy Ffydd*, yn yr ystyr fod nac eglwys na sacramentau, na chredo, na Beibl, yn anghenrheidiol i fywyd da a duwiol;

Mewn *Marwolaeth*, fel diwedd pob ymdrech a phob gwaith, neu mae'r bywyd hwn yw unig gyfleusdra profiad dyn, a bod gwae neu wynfyd digyfnewid yn canlyn ar ei ol;

Mewn *Satan* ac Uffern neu fod ym myd Duw yr un lle neu berson, lle mae casineb a drwg a thrueni i barhau byth ynddo.

Fod *Un Duw*; a bod pawb ydynt i unrhyw raddau yn canfod, ac mewn ysbryd a gwirionedd yn parchu, "Gallu Anweledig" yn gweithio yn nghyfeiriad cyfiawnder, yn addolwyr cymeradwy ganddo Ef;

Fod *Iesu Grist* yn athraw, ac yn gyfiawn yn cael ei alw yn Grist (*neu* Eneiniog), gan fod Duw wedi ei eneinio a'r Ysbryd Glan ac a nerth (Actau x. 38), a bod pawb ydynt yn ceisio meddwl a gweithredu yn ol ei gyfarwyddiadau a'i esiampl yn wir Gristionogion;

Fod y *Beibl* yn cynnwys hanes meddyliau dynion defosiynol am Dduw a'i weithredoedd a'r modd i'w wasanaethu, fel yr oedd o oes i oes yn dadguddio ei hun yn fwy cyflawn; ei fod felly yn arbenigol yn llyfr profiad crefyddol, ac fel y cyfryw i'w ddarllen a'i barchu gan bawb a fynnant dderbyn lles oddiwrth wersi y gorffenol, y rhai ydynt mor galed i'w dysgu ac mor hawdd i'w hangofio;

Fod *dyn* yn blentyn Duw, a chanddo bob amser fynediad rhydd ato, megys y mae gan blentyn, ie, hyd yn oed gan afradlon, at dad da;

Fod *iachawdwriaeth* yn gynnwysedig mewn rhyddhad oddiwrth drueni, pechod, a chyfeiliornad, a bod gwahanol ffurfiau crefydd i'w barnu yn ol mesur eu heffeithioldeb i achub dynion rhag y drygau hyn;

Fod ein *dedwyddwch* neu ein hannedwyddweh ar ol marw yn dybynu ar y modd byddwn wedi byw—yn dda neu yn ddrwg— yn y bywyd hwn, yn ol geiriau y proffwyd: "Dywedwch mai da fydd i'r cyfiawn: canys ffrwyth eu gweithredoedd a fwynhant. Gwae yr anwir, drwg fydd iddo: canys gwobr ei ddwylaw ei hun fydd iddo" (Esiaah iii. 10, 11).

Yn ddiweddaf, fod Duw yn fwy *Da* na'r goreu o dadau, yn fwy *cyfiawn* na'r unionaf o Farnwyr; y gallwn gyfiwyno ein hunain iddo Ef mewn perffaith hyder y gwnaiff Efe a ni bob amser yr hyn fydd er ein gwir les, yma ac ymhob man, yn awr ac am bob tragwyddoldeb;

A hon, meddant, yw y Ffydd Gatholig neu Gyffredinol sydd yn gorwedd o dan bob ffurf o grefydd, a'r hon, os bydd i ddyn ei chredu a byw yn ei hol, a fydd yn sicr o ddwyn iddo iachawdwriaeth.

CHARLES HARGROVE, M.A.
Leeds.

YR ydys er ys amser hir wedi arfer camddarlunio a chamddeall yr Undodiaid gan rai ydynt yn fwy eu hawydd i gondemnio golygiadau eu cymydogion nag i ddeall mewn gwirionedd beth ydynt; a gwyddom fod llawer wedi eu dysgu i gredu pethau drwg am danom. Ein ffordd arferol ni i gyfarfod a'r fath gamddealldwriaeth a'r fath gamddarluniad yw myned yn mlaen yn dawel gyda'n gwaith, gan geisio meddwl a llefaru yn gywir, a helpu yn y blaen bob mudiad sydd yn amcanu at les y bobl, ac addoli ein Tad Nefol yn ol llais ein cydwybodau. Ond daw weithiau yn ddyledswydd amlwg arnom i siarad allan, ac i egluro beth yw ein ffydd fel Cristnogion Undodiaid?

Beth ynte yw y ffurf yma ar Gristnogaeth y rhybuddir chwi yn ei erbyn fel pe byddai ryw bla ysbrydol? Y mae

CRISTNOGAETH UNDODAIDD.

yn dysgu fod Duw yn dad i ni, yn llawn cariad atom oll. Dysgir ni gan Iesu fod y Tad yn gwrando ein gweddiau, ac yn gwylied drosom gyda gofal mwy tyner nag y gofala am lili y maes ac adar yr awyr.

Dysgir ni gan Iesu hefyd, nad pa mor bwysig yw fod gennym syniadau cywir, ei bod yn fwy pwysig i ni garu Duw a'r holl galon, a'r holl feddwl, a'r holl enaid, a'r holl nerth, a'n cymydog fel ni ein hunain. Y rhai hyn, ebe fe, yw y ddau orchymyn cyntaf, ac nad oes un arall mwy na'r rhai hyn.

Dysgir ni gan Iesu hefyd, mai y ffordd i fyned i fewn i Deyrnas Nefoedd yw, nid yn gymaint trwy feddu duwinyddiaeth gywir, neu trwy sacramentau allanol, ond trwy gael ein troi a dyfod megys plant bychain,—yn syml ein calon, yn llawn purdeb a chariad.

Dysg Cristnogaeth Undodaidd fod y Tad Goreu yn ein hawlio oll fel plant, a phan mae'r Iesu yn son am dano ei hun fel mab Duw, ei fod am i ni gofio ein bod ninnau yn blant Duw hefyd, er ein bod, yn anffodus, mewn llawer modd wedi ymchwilio trwy feddyliau a thrwy weithredoedd anheilwng.

Y mae Cristnogaeth Undodaidd yn caru Dameg y Mab Afradlon, am ei bod, mor eglur ac mor brydferth, yn dangos i ni gariad a maddeuant Duw, a'r tosturi tyner a deimlir ganddo tuag atom pan fyddom wedi pechu.

Cred fod Duw yn llefaru wrth ei blant yn awr mor wirioneddol ag y gwnaeth wrth y proffwydi gynt ac wrth Iesu Grist, gan eu dyddanu, eu nerthu a'u goleuo. Cydwybod ei hunan, ei lais sanctaidd Ef yw.

Gwel yn Iesu Grist fywyd a charitor o'r mwyaf pur a phrydferth, ysbrydoliaeth ryfeddol i ni oll, a phatrwn i ni geisio ymdebygu iddo; a châr feddwl am dano fel ein Brawd Hynaf, o'r un natur a ni ein hunain.

Nid yw Cristnogaeth Undodaidd yn credu y gollynga Duw neb o'i blant i wae tragwyddol. Mae y fath syniad yn groes i'r syniad am ei Dadoldeb. Y mae Efe yn ein harwain ni oll ar hyd gwahanol lwybrau, yng nghyfeiriad y bywyd pur a sanctaidd ar gyfer yr hwn y dygodd ni i fod.

Mae y syniadau mor wahanol i'r hyn a ddysgir gan eglwysi ereill fel gwir Gristnogaeth, fel y bydd yn syndod gennych pa fodd, gyda'r un Beibl yn ein dwylaw, y gallwn yn bosibl ddyfod i gasgliadau mor gwbl groes i'n gilydd.

R. A. ARMSTRONG, B.A.
Liverpool.

CANWYLL Y CYMRY.

Yr oedd yn nos ar Gymru yn adeg Ficer Pritchard, Llanymddyfri (1579—1644) Oes feddw ac anonest oedd yr oes honno. Ni fynnai'r bobl fynd i'r eglwys i wrando ar bregeth, ac ni allent ddarllen, ac ni fynnent ddysgu ychwaith.

Am hynny dewisodd y Ficer Pritchard ddweyd ei neges wrth Gymru mewn geiriau plaen a di-addurn, mewn penillion syml.

Gwyddai ef yn dda na allai'r bobl ddeall llyfrau dyfnion na phregethau dysgedig.

"Am weld dyfnwaith enwog Salsbury,
Gan y diddysg heb ei hoffi,
Cymerais fesur byr cyn blaened,
Hawdd i'w ddeall, hawdd i'w 'styr-ied."

Cynghorion i Genedl y Cymry geir yn Llyfr y Ficer. Rhydd ei fys ar wendidau'r bobl, a dengys y ffordd iddynt fyw yn well.

Cymhella hwy i ddarllen y Beibl :

"Gwerth dy dir, a gwerth dy ddod-refn,
Gwerth dy grys oddiam dy gefen,
Gwerth y cwbl oll sydd gennyd,
Cyn y boch heb Air y Bywyd."

Yr oedd gan y Cymry Feibl yn eu hiaith er 1588, ond argraffiad mawr oedd hwnnw, ac un 1620 ar ei ol, ac yr oedd copiau o'r Beiblau hynny allan o gyrraedd y bobl. Ond yn 1630 dygwyd allan argraffiad llai ei faint a rhatach ei bris.

Myn yr Hen Ficer i'w genedl wneud yn fawr o hwn :

"Mae'r Beibl bach yn awr yn gyson
Yn iaith dy fam i'w gael er coron ;
Gwerth dy grys cyn bod heb hwnnw,
Mae'n well na thref dy dad i'th gadw."

Nid oedd ond ychydig o'r bobl a fedrai ddarllen y pryd hwnnw :

"O meder un o'r tylwyth ddarllain
Llyfr Duw yn ddigon cywrain,
Fe all hwnnw'n ddigon esmwyth
Ddysgu'r cwbl o'r holl dylwyth."

Dyma fel y dysgai i'w fab bach Sami weddio :

"Ti dderbyniaist Samuel gyntaf
I'th was'naethu ar yr iengaf,
Pan yr oedd ef yn ei siaced
Yn fab bach yn dechreu cerdded.
Derbyn finnau Arglwydd grasol,
I'th was'naethu mor naturiol,
Ac eglura dy hun imi,
Fel y gallwy'n fach d'addoli."

Rhydd gyngor iddo wrth fynd oddicartre :

"Cod y bore ar y wawrddydd
Am y cyntaf a'r uchedydd ;
Hyn a'th helpa i gael iechyd,
Dysg a dawn a chyfoeth hefyd.
Cyn b'ot segur taro'r delyn,
Cân y Salmau sy'n ei chanlyn ;
Fe fydd hynny'n hyfryd weithie
I Sam bach tra oddicartre."

Y Ficer ei hun roddodd enw i'w lyfr :

"Gelwais hon yn Gannwyll Cymro
Am i'm chwennych brudd oleuo,
Pawb o'r Cymry diddysg deillion,
I was'naethu Duw yn ffyddlon."

Ond ni argraffwyd y gwaith yn ystod ei fywyd ef. Dywedir mai Stephen Hughes oleuodd y "gannwyll." Goleuwyd hi tros ddeg ar hugain o weithiau o 1646 hyd heddiw.

MARWGOFION.

Awst 26, yn 14eg wythnos oed, Benjamin Brynmor, baban Mr. Jonathan Thomas a Mrs. Mary Thomas, Glanrhyd, Drefach, Llanwenog, ac wyr Mrs. Mary Lloyd, o'r un lle. Bu farw yn ddisymwth hollol, a phar hynny fod yr amgylchiad yn un trallodus iawn. Claddwyd ym mynwent Eglwys Llanwenog. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. L. Williams, Alltyblaca a Chapelybryn, a chynorthwywyd gan y Parch. E. Glyn Edwards, Cwrtnewydd. Yn yr eglwys gwasanaethwyd gan y Parch. Mr. Thomas, Curad.

Sadwrn, Awst y 29ain, bu farw Mr. John Evans, Saer Maen, genedigol o Blaencathal, ac a fu yn trigo ar flynyddau yn Sychbant, Blaenllain a Llanbedr. Am tua deg mlynedd bu yn cartrefu gyda ei fab Mr. Johnny Evans, yn y Glais, Morganwg, lle y bu farw yn bedwar ugain oed oddiar Rhagfyr diweddaf. Cymerodd yr angladd le dydd Mawrth, Medi y 1af. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parchn. D. Parry Jones, Curad y Glais, a D. G. Rees, Gellionen. Claddwyd yr hyn oedd farwol o hono yn medd ei briod "Nansi" ym mynwent Brondeifi. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth yn y Capel ac ar lan y bedd gan y Parch. T. W. Hughes Vicar Brynamman, y Parch. T. Oswald Williams, M.A., y gweinidog, a'r Parch. D. G. Rees. Yr oedd yr ymadawedig yn Undodwr o argyhoeddiad, ac yn ddarllenwr cyson a deallgar o'r "Ymofynydd". Rhagflaenwyd ef i'r anweledig gan ei briod yn Chwefror, 1903. Ai gais am amryw fisoedd cyn ei ymadawiad i'r ysgrifennydd oedd:— "A ddewch chwi i'm hebrwng i Brondeifi at Nansi?" Yr oedd pump o i feibion yn yr angladd, ac y mae un, sef Walter yn Australia. Yr oedd crynboad lluosog o'i dylwyth o Forganwg ac o Sir Aberteifi yn yr angladd. Cafodd weiniad tyner a gofalus yn ystod ei gystudd olaf gan ei fab a'i ferch-yng-nghyfraith, a bu yr wyron megis ar eu gore yn ei gysuro yn ei lesgedd a'i wendid a'i henaint. Bydded hynny yn gysur iddynt i gyd ar ol ei golli.

Awst 30, yn 54 mlwydd oed, Mrs. Anne Jones, gwraig Mr. Thomas Jones, C.D., Ninant Shop, Llanllwni. Cafodd ei chymeryd yn glaf o'r parlys y Sul blaenorol, a bu ei chystudd byr yn un trwm iawn. Dynes o gymeriad godidog oedd yr ymadawedig. Yr oedd yn nodedig am ei chrefyddolder a'i ffyddlondeb i wasanaethau y cysegr. Yn y cysegr oedd yn addoli yr oedd pan y cafodd ei chymeryd yn wael. Gymaint oedd ei sel grefyddol fel yr oedd yn ffyddlon nid yn unig gyda'r gwasanaethau ar y Sul, ond hefyd gyda chyfarfodydd yr wythnos. Nid peth ymddangosiadol oedd ei chrefydd, ond peth gwirioneddol, oblegid yr oedd ei hymddygiad yng nglyn a phobpeth yn gyson a'r grefydd a broffesai. Meddai ar y fath ysbryd siriol, a'r fath dymher addfwyn, a'r fath anian garedig fel yr oedd wedi ennill pawb o'i chydnabod i'w hoffi yn fawr. Pan yn ieuanc perthynai i eglwys Alltyblaca, a pharha ei mham, sef Mrs. Margaret Thomas, Greenfield, Llanllwni, gynt o Pentrerhys, yng nghyd a rhai o'i phlant yn aelodau o'r eglwys eto. Ar ddydd ei hangladd caed prawf o'r parch mawr oedd iddi, oblegyd yr oedd y dorf a ddaeth ynghyd yn anarferol o luosog. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. Morris Jones, Capel Nonni, a chymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. Lewis Williams, Alltyblaca a Chapelybryn, a D. C. Griffiths, Aberduar. Gadawodd briod a dwy ferch, yng nghyd a mam, tair chwaer, un brawd, neiaint, a pherthynasau eraill i alaru ar ei hol.

Ar y 9fed o Fedi. yn 74 oed, bu farw Elizabeth Jones, annwyl briod John Jones, Blaenmoelfre, plwyf Llanbedr, ar ol amryw fisoedd o gystudd. Gadawodd briod, chwech o blant, a pherthynasau agos eraill,

mewn galar dwys ar ei hol. Yr oedd yn aelod yng Nghapelygroes er's amryw flynyddoedd; a bu'n ffyddlon hyd y lluddiwyd hi gan gyflwr anfoddhaol ei hiechyd i bresenoli ei hun yn y gwasanaethau. Benyw dawel ydoedd, a hoffid yn fawr gan gylch ei chydnabyddiaeth. Yn unol a'i dymuniad, claddwyd ei gweddillion ym mynwent Capelygroes y dydd Llun dilynol, pryd y daeth nifer luosog iawn o'i chymdogion o gylch eang ynghyd fel arwydd o'u parch iddi. Gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle; pregethwyd yn y capel oddiar Salm cxviii, 17. Gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. L. Williams.

Medi 10, yn 70 oed, Mary Harries, gweddw y diweddar Harry Harries a merch y diweddar Evan a Catherine Davies, Nantygwyddaufach Llandyssul. Bu Catherine wedi hynny yn byw yn Tynewydd, Talgarreg. Bu Mrs. Harries farw yn nhy ei mherch gyda'r hon y cartrefai, Mrs. Elin Pritchard, "Y Dderwen," Park Crescent, Bargoed. Bu am flynyddau yn Penybank Hospital, Fochriw, ond er's tro cartrefai yn y lle uchod. Deallwn ei bod yn fenyw o gymeriad ragorol: llafurus, doeth ac o anian garedig a siriol. Meddai ei merch "Collais fam dda a bydd yr aelwyd yn wag iawn hebddi." Hyderwn y ca hi a'i phlant nawdd y nef yn ei profedigaeth. Dywedai y ferch hefyd iddi barhau i ddarllen "Yr Ymofynydd" hyd y diwedd ac y soniai lawer am Undodiaeth; Bwlchyfadfa a Phantdefaid. Y Llun dilynol dygwyd ei chorff i'w gladdu yn ymyl bedd ei thad a'i mham ym mynwent Pantdefaid. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. Mr. Jones, cymydog iddynt; yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. Arthur Thomas.

Ar y 14eg o Fedi, yn ei chartref, 6, Glanville Terrace, Maerdy, yn 47 mlwydd oed, bu farw Hannah Band, annwyl briod Thomas Band, o'r un cyfeiriad, ac annwyl ferch Jane Jones, Shop Inn, Llanwnen. Yr oedd ei hiechyd wedi dechreu dadfeilio er's amryw flynyddoedd; ond gobeithid ymron hyd y diwedd nad oedd perigl, ac y cai adferiad; ond er pob gofal a medr feddygol, trodd y gobaith allan yn ddi-sail, a bu farw fel y crybwyllwyd. Hyd symud ohoni i'r Maerdy bu'n aelod ffyddlon yng Nghapelygroes, ac yr oedd i'r achos yno le cynnes iawn yn ei chalon hyd y diwedd ond pan ddaeth yn amlwg bod ei chartref yn y lle uchod yn debig o fod yn un parhaol, cymrodd ei lle fel aelod yn yr eglwys Fethodistaidd. Yr oedd yn un o ysbryd bywiog, cysurus iawn, o anian ddiniwed, ac o rodiad cywir. Diau i'w hysbryd gobeithgar fod yn help mawr iddi yn ei chystudd. Gadawodd mewn galar dwys ar ei hol briod, mam, merch fabwysiedig, ynghyd a chylch eang o berthynasau a chyfeillion. Dygwyd ei gweddillion i fynwent Capelygroes y Sadwrn dilynol gyda'r modur; a daeth cwmni lluosog iawn yr oll o'r ffordd o'r Maerdy i dalu iddi y gymwynas olaf, y Parch. Mr. Davies, yn eu plith. Yn y capel yr oedd tyrfa luosog o'i hen gymdogion hefyd. Gwasanaethwyd yn y Maerdy cyn cychwyn gan Mr. Davies; ac yng Nghapelygroes gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle; caed anerchiad byr hefyd gan Mr. Davies. Gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. L. Williams.

MANION AC HANESION.

PANTYDEFAID.—Dydd Sadwrn, Medi y bumed, talodd Ysgol Sul Pantydefaid ymweliad a Cheinewydd. Bu'r tywydd yn y bore yn angharedig, ond daeth haul ar ol y gwlaw. Yr ydym yn ddiolchgar iawn i Mr. John Thomas a Miss Thomas, Vrondoley, nid yn unig am eu caredigrwydd yn rhoddi bwyd i'r holl aelodau, ond hefyd am gymryd diddordeb yn chwarae'r plant, yr hyn fu'n achos ychwanegu at fwynhad y dydd.

CAPEL Y CILIAU.—Awst 26ain daeth tyrfa weddol luosog yng nghyd i fwynhau gwledd o de a bara brith yr hon a roddwyd yn garedig iawn gan yr hen dad ffyddlon Mr. Thomas Jonathan, Hampton House. Yr oedd y prydnawn yn ffafriol i fwynhau, a thystiolaeth pawb oedd eu bod wedi gwneud yn rhyfeddol. Ar ol y te a'r sports, cafwyd cyfarfod hwylus yn yr hwyr, pryd y gwnaeth bron bob plentyn oedd yn bresenol gymeryd rhan. Ar ol talu y diolchgarwch arferol, terfynwyd y cyfarfod trwy ganu "Hen Wlad fy Nhadau."

DADORCHUDDIO MAEN COFFA.—Ar Sul, y 13eg o Fedi, cynhaliwyd cyfarfod yng Nghapel-y-Cwm, i ddadorchuddio Maen Coffa i'r diweddar Barch. John Davies, gweinidog eglwys y Cwm, ac eglwysi Alltyblaca a Chapelybryn. Yr oedd y cynulliad yn un lluosog. Cyflawnwyd y rhan au arweiniol gan y Parch. L. Williams. Dadorchuddiwyd y Maen gan Mrs. James, Brynhyfryd, Llandyssul. Ar ol hynny cafwyd annerchiadau gan Josiah Jones, Ysw., C.S., Garthowen, a'r Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen, a'r Parch. L. Williams, Capel-y-Cwm. Y Parch. John Davies gychwynodd yr achos yn y lle hwn yn 1887, ac a ffurfiodd yr eglwys hon, a bu yn weinidog arni hyd ei ymddiswyddiad yn niwedd 1915.

Cymdeithas * Undodaidd * Deheudir * Cymru.

CYNHELIR

Cyfarfodydd Chwarterol

YR UNDEB UCHOD YN YR

— Hen Dy Cwrdd, Aberdar —

Dyddiau MAWRTH a MERCHER, HYDREF 6 a 7, 1925.

Nos Fawrth, pregethir gan y Parch. Lewis Williams.

Bore Mercher—Pwyllgor y Gymdeithas.

Prynhawn Mercher, gwasanaethir gan y Parch. T. Arthur Thomas.

Hwyr Mercher, gwasanaethir gan y Parch. T. O. Williams, M.A., a'r Parch. E. O. Jenkins.

Estynnir y croesaw mwyaf calonog gan Weinidog ac Eglwys yr Hen Dy Cwrdd i'r Cyfarfodydd uchod.

☞ Y dydd Iau dilynol, cynhelir Cyfarfodydd Ordeinio Mr. J. D. Jones, B.A., yn Weinidog ar yr Eglwys Undodaidd ym Mhontypriddd.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS, . . . LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c. . . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through 1,830 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C.2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; The London City and Midland Executor and Trustee Co. Ltd.